# SCHOOL IN-REACH SERVICE NEWSLETTER

## IN THIS ISSUE


- Service updates
- Student Voice Club
- Primary focus group
- What we've been doing
- Summer training


Welcome back to the final term of the academic year. We hope you enjoyed the Easter break and were able to enjoy some well-earned time off. Here are some updates from the School In-Reach Service over the past term.

## SERVICE UPDATES

We have recorded 2 of our training sessions, 1 for education staff and 1 for parents/carers. Please feel free to share these links with colleagues / parents where appropriate. We hope to record these bilingually in the future.

### Understanding and responding to distress (for education staff)

The recording is aimed at education staff to watch individually or in groups, and provides prompts and opportunities to pause and reflect. This can be watched on YouTube: https://www.youtube.com/watch?v=nK-og1xqjTw

### Wellbeing during exam times (for parents and carers)

This recording aims to explore what anxiety is, why it exists, how it can change during periods of stress (such as an exam), and different strategies young people can use along with their families to regulate emotions and cope with stress. At times, the video asks those watching to pause and take part in activities/reflection. Parents/carers can watch in their own time and in a way that feels comfortable for them!
This can be watched on YouTube: https://www.youtube.com/watch?v=CrulgjNZXHg

## NEW TRAINING OFFERS

We have developed 2 new training packages which are available this term (see booking form on page 2).

### Sensory needs in the classroom

A 2 hour interactive workshop highlighting sensory difficulties students may experience, whether due to being outside their window of tolerance and/or being Neurodiverse, providing practical tools to aid in the classroom. The session is face to face as it is experiential and allows space for practical examples.

### Responding to behaviour with 'Two Hands'

A 1 hour 30 minutes (2 hours if face to face) training session that supports staff to respond behaviour with a "two-hand" approach (of connection and correction) to help children and young people to thrive. The training aims to increase skills in remaining PACE-ful even when implementing boundaries. This training builds upon concepts by Dr Dan Hughes which are highlighted in our Embedding PACE in the Classroom training.

# SUMMER TRAINING 2024

**Our open access training programme is freely available to all education staff across Cardiff and the Vale.**

If you are interested in training for whole staff groups in your individual setting, please discuss with your locality lead in your prioritisation meeting.

| DATE | TIME | TITLE OF TRAINING |
|---|---|---|
| Tuesday 16/4/2024 | 13:30-16:30 | Tree of Life (In-person Workshop - Ely Family Centre, Cardiff* |
| Wednesday 24/4/2024 | 15:30-17:00 | Stress Awareness |
| Tuesday 29/4/2024 | 15:30-17:00 | Embedding PACE in the Classroom |
| Tuesday 7/5/2024 | 15:30-17:00 | Understanding and Responding to Distress |
| Monday 13/5/2024 | 13:30-16:30 | Managing Endings and Transitions Well (In-person Workshop - Woodland House, Cardiff)* |
| Monday 20/5/2024 | 12:00-14:00 | Sensory Needs in the Classroom (In-person Workshop - Ely Family Centre, Cardiff* |
| **HALF TERM** | | |
| Monday 3/6/2024 | 15:30-17:00 | Responding to Behaviour with 'Two Hands' |

* We are hosting **in-person** training with a maximum number of 18 attendees, sign up quick so not to miss out!

## REGISTRATION DETAILS

To book a place or for more information on each of the training sessions, please complete the Microsoft form by following the link below:

**Sign up here: https://forms.office.com/e/xxufqgaTL9**

or scan the QR code

SCHOOL IN-REACH SERVICE GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION

Emotional Wellbeing & Mental Health Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl

CYPF Children, Young People & Family Health Services

PPIT Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc ac Iechyd Teuluol

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

# STUDENT VOICE CLUB

In our last newsletter, we shared that we have started a pilot youth panel at Radyr Comprehensive. Today, we would like to introduce to you the name our young people have chosen **'STUDENT VOICE CLUB'.** Why have they chosen this? 'Students' because it defines them by role and not by age. 'Voice' because all voices matter and 'Club' because everyone's welcome and clubs are fun.

**The co-designed logo and name!**

In a recent SVC meeting, we explored:

**"What is a trusted adult?"**

SVC shared with us that **a trusted adult is:**

- someone you can talk to about anything
- someone THEY choose and is NOT someone who is chosen for them.

SVC felt that their parents/carers and guardians would know who their trusted adult is, which has made us consider how we find out this information.

Over the course of the next few months, we'll be exploring how we can utilise young people's voices into our Request for Assistance process, having been inspired by SVC.

Thanks Radyr, and thank you SVC!

# PRIMARY SCHOOL FOCUS GROUP

**What we did:**

In December, School In-Reach ran 3 focus group sessions with staff from Primary schools across Cardiff and the Vale of Glamorgan. These sessions aimed to bring together a collection of adults who are currently working in primary school environments, to share an understanding of current themes, challenges, and gaps in support relating to the emotional health and wellbeing needs of primary aged pupils. We were extremely fortunate to have 22 primary school professionals share their experiences.

**What we learnt:**

We learnt a great deal about what is currently available, what parts of our offer are already developed, and what a future offer could look like.

Participants shared that they would want:

- More knowledge on attachment theory and PACE
- Age-appropriate resources and support for primary schools on understanding and responding to wellbeing needs
- Opportunities to consult and formulate with health professionals on a termly basis

**What next?**

As a team, we appreciate the effort taken by staff to participate in this growing (and very exciting!) conversation. We are thinking as a team how we can use what we learnt in future service development. Thank you to all those who shared their thoughts and their time with us. Watch this space for more!

# WHAT WE'VE BEEN DOING THIS TERM

It's been a busy term! These are a few examples of what we have been up to:

## CARDIFF

In February we delivered our Embedding PACE in the Classroom training to 3rd year teachers in training at Cardiff Met. We really enjoyed hearing their reflections of the way they have seen, and could in the future use, 'PACEful' approaches in the classrooms. We wish them well for having their very own classrooms come September this year.

> "Learning that pace is not a specific approach but a way of being. You cannot always take a 'fix it' approach."

## VALE


This term we were delighted to deliver our Wellbeing During Exam Time workshop to an entire year 11 in Whitmore. In total 117 pupils attended! Special thanks to the commitment from the staff there in making this day happen, including Mr Lloyd, Mrs Morgan and Mrs Nielsson.




## PRU/EOTAS

### 'Embedding PACE' in the setting!

Our PRU/EOTAS locality team have been delivering a 'passport of learning' of all our training packages to the new Skills and Support Team as part of the **T.E.A.M. @ Severn (Teaching Engaging Achieving Motivating).** The team support learners who have been allocated tuition following the Fair Access Panel in Cardiff. The face-to-face trainings have been a great way to get to build relationships between our teams and provide an underpinning of knowledge that can be built upon in consultations. Following our training, the staff have started to embed Playfulness, Acceptance, Curiosity and Empathy (PACE) into their approach, and have even made a wonderful display in their new building!



# CYLCHLYTHYR Y GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION

**YN Y RHIFYN HWN**

- Diweddariadau'r gwasanaeth
- Clwb Llais Myfyrwyr
- Grŵp ffocws cynradd
- Beth rydyn ni wedi bod yn ei wneud
- Hyfforddiant Haf

Croeso yn ôl i dymor olaf y flwyddyn academaidd. Rydym yn gobeithio eich bod wedi mwynhau gwyliau'r Pasg ac wedi gallu mwynhau amser ymlacio haeddiannol. Dyma rai o'r diweddariadau gan y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion yn ystod y tymor diwethaf.

## DIWEDDARIADAU'R GWASANAETH

Rydym wedi recordio 2 o'n sesiynau hyfforddiant, 1 ar gyfer staff addysg ac 1 ar gyfer rhieni/gofalwyr. Mae croeso i chi rannu'r dolenni hyn gyda chydweithwyr / rhieni lle bo hynny'n briodol. Rydym yn gobeithio recordio'r rhain yn ddwyieithog yn y dyfodol.

### Deall ac ymateb i ofid (ar gyfer staff addysg)

Mae'r recordiad wedi'i anelu at staff addysg i'w wylio'n unigol neu mewn grwpiau, ac mae'n darparu awgrymiadau a chyfleoedd i oedi a myfyrio. Gellir gwylio hyn ar YouTube: https://www.youtube.com/watch?v=nK-og1xqjTw

### Lles yn ystod amser arholiadau (i rieni a gofalwyr)

Nod y recordiad hwn yw ystyried beth yw pryder, pam mae'n bodoli, sut y gall newid yn ystod cyfnodau o straen (fel arholiadau), a strategaethau gwahanol y gall pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddioi reoleiddio emosiynau ac ymdopi â straen. Ar adegau, mae'r fideo yn gofyn i'r rhai sy'n gwylio oedi a chymryd rhan mewn gweithgareddau/myfyrdodau. Gall rhieni/gofalwyr wylio yn eu hamser eu hunain ac mewn ffordd sy'n teimlo'n gyfforddus iddyn nhw! https://www.youtube.com/watch?v=CrulgjNZXHg

## CYNIGION HYFFORDDIANT NEWYDD

Rydym wedi datblygu 2 becyn hyfforddiant newydd sydd ar gael y tymor hwn (gweler y ffurflen archebu ar dudalen 2).

### Anghenion Synhwyraidd yn yr ystafell ddosbarth

Gweithdy rhyngweithiol 2 awr yn amlygu anawsterau synhwyraidd y gall myfyrwyr eu profi, boed oherwydd eu bod y tu allan i'w ffenestr goddefgarwch a/neu fod yn Niwroamrywiol, yn darparu offer ymarferol i gynorthwyo yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r sesiwn yn un wyneb yn wyneb gan ei fod yn brofiadol ac yn caniatáu lle ar gyfer enghreifftiau ymarferol.

### Ymateb i Ymddygiad gyda 'Dwy Law'

Sesiwn hyfforddi 1 awr 30 munud sy'n cefnogi staff i ymateb i ymddygiad gydag ymagwedd "dwy-law" (o gysylltu a chywiro) i helpu plant a phobl ifanc i ffynnu. Nod yr hyfforddiant yw cynyddu sgiliau aros yn PACEful hyd yn oed wrth weithredu ffiniau. Mae'r hyfforddiant hwn yn adeiladu ar gysyniadau Dr Dan Hughes a amlygir yn ein hyfforddiant Ymgorffori PACE yn yr Ystafell Ddosbarth.

# HYFFORDDIANT YR HAF 2024

**Dyma ein rhaglen hyfforddiant mynediad agored ar-lein ar gyfer y tymor hwn - mae ar gael i holl staff addysg ledled Caerdydd a'r Fro.**

Os oes gennych ddiddordeb mewn hyfforddiant ar gyfer grwpiau staff cyfan yn eich lleoliad unigol, trafodwch hyn gyda'ch arweinydd ardal yn eich cyfarfod blaenoriaethu.

| DYDDIAD | AMSER | TEITL YR HYFFORDDIANT |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 16/4/2024 | 13:30-16:30 | Coeden Bywyd (Gweithdy mewn person - Canolfan Blant Trelái, Caerdydd* |
| Dydd Gwener 24/4/2024 | 15:30-17:00 | Ymwybyddiaeth o Straen |
| Dydd Mawrth 29/4/2024 | 15:30-17:00 | Gwreiddio PACE yn yr Ystafell Ddosbarth |
| Dydd Mawrth 7/5/2024 | 15:30-17:00 | Deall Trallod ac Ymateb Iddo |
| Dydd Llun 13/5/2024 | 13:30-16:30 | Ymdopi â Diwedd Cyfnod a Phontio yn effeithiol (Gweithdy mewn person - Woodland House, Caerdydd)* |
| Dydd Llun 20/5/2024 | 12:00-14:00 | Anghenion Synhwyraidd yn yr ystafell ddosbarth (Gweithdy mewn person - Canolfan Blant Trelái, Caerdydd* |
| **HANNER TYMOR** | | |
| Dydd Llun 3/6/2024 | 15:30-17:00 | Ymateb i Ymddygiad gyda 'Dwy Law' |

* Rydym yn cynnal hyfforddiant mewn person gydag uchafswm o 18 o fynychwyr, cofrestrwch yn gyflym felly i beidio â cholli allan!

## MANYLION COFRESTRU

I gadw lle neu i gael rhagor o wybodaeth am bob un o'r sesiynau hyfforddi, cwblhewch y ffurflen Microsoft drwy ddilyn y ddolen isod:

**Ffurflen gofrestru: https://forms.office.com/e/xxufqgaTL9**

neu sganiwch y cod QR

# CLWB LLAIS MYFYRWYR

Yn ein cylchlythyr diwethaf, gwnaethom rannu ein bod wedi dechrau panel ieuenctid peilot yn Ysgol Gyfun Radur. Heddiw, hoffem gyflwyno'r enw y mae ein pobl ifanc wedi'i ddewis sef 'CLWB LLAIS MYFYRWYR'. Pam wnaethon nhw ddewis hwn? 'Myfyrwyr' oherwydd ei fod yn eu diffinio yn ôl rôl ac nid yn ôl oedran. 'Llais' achos mae pob llais yn bwysig a 'Clwb' achos mae croeso i bawb ac mae clybiau yn hwyl.

Clwb Llais Myfyrwyr

Y logo a'r enw sydd wedi'u cyd-ddylunio!

Mewn cyfarfod CLIM diweddar, buom yn ystyried

'Beth yw oedolyn y gallwn ni ymddiried ynddo?'

Rhannodd CLIM fod **oedolyn y gallwn ni ymddiried ynddo**:

- Yn rhywun y gallwch chi siarad ag ef neu hi am unrhyw beth.
- Yn rhywun y maen NHW yn ei ddewis ac NID rhywun sy'n cael ei ddewis ar eu cyfer.

Teimlai CLIM y byddai eu rhieni/gofalwyr a'u gwarcheidwaid yn gwybod pwy yw'r oedolyn y gallan nhw ymddiried ynddo, sydd wedi gwneud i ni ystyried sut rydym yn dod o hyd i'r wybodaeth hon.

Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn ystyried sut y gallwn ni ddefnyddio lleisiau pobl ifanc yn ein proses Cais am Gymorth, ar ôl cael ein hysbrydoli gan CLIM.

Diolch Radyr a diolch yn fawr CLIM!!

# GRŴP FFOCWS YSGOLION CYNRADD

**Beth wnaethom ni:**

Ym mis Rhagfyr, cynhaliodd Mewngymorth Ysgolion 3 sesiwn grŵp ffocws gyda staff o ysgolion cynradd ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Nod y sesiynau hyn oedd dod â chasgliad o oedolion sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn amgylcheddau ysgolion cynradd at ei gilydd, i rannu dealltwriaeth o themâu, heriau a bylchau cyfredol mewn cefnogaeth sy'n ymwneud ag anghenion iechyd a lles emosiynol disgyblion oedran cynradd.

Roedden ni'n hynod ffodus i gael 22 o weithwyr proffesiynol ysgolion cynradd yn rhannu eu profiadau.

**Yr hyn y gwnaethon ni ei ddysgu:**

Fe wnaethon ni ddysgu llawer iawn am yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, pa rannau o'n cynnig sydd eisoes wedi'u datblygu, a sut olwg allai fod ar y cynnig yn y dyfodol.

Rhannodd y cyfranogwyr y byddent eisiau:

- Mwy o wybodaeth am theori ymlyniad a PACE
- Adnoddau a chymorth i ysgolion cynradd ar ddeall ac ymateb i anghenion lles plant oed cynradd
- Cyfleoedd i ymgynghori a llunio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol yn dymhorol

**Beth nesaf?**

Fel tîm, rydym yn gwerthfawrogi'r ymdrech a gymerwyd gan staff i gymryd rhan yn y sgwrs gynyddol (a chyffrous iawn!) hon. Rydym yn meddwl fel tîm sut y gallwn ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd gennym wrth ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Diolch i bawb sydd wedi rhannu eu meddyliau a'u hamser gyda ni. Bydd mwy o fanylion ar gael toc.

# YR HYN YR YDYM WEDI BOD YN EI WNEUD Y TYMOR HWN

Mae wedi bod yn dymor prysur! Dyma rai enghreifftiau o'r hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud:

## CAERDYDD

Ym mis Chwefror fe wnaethom gyflwyno ein hyfforddiant 'Gwreiddio PACE yn yr Ystafell Ddosbarth' i athrawon mewn hyfforddiant oedd ar eu trydedd blwyddyn ym Met Caerdydd. Fe wnaethon ni fwynhau clywed eu myfyrdodau a'u syniadau am sut i blethu PACE i mewn i'r ystafell ddosbarth yn y dyfodol. Rydym yn dymuno pob hwyl iddynt gyda'u dosbarthiadau eu hunain o fis Medi.

> "Dysgu nad yw PACE yn ddull penodol ond yn ffordd o fod. Ni allwch chi bob amser fod ag ymagwedd o geisio 'trwsio'r peth"

## Y FRO

Y tymor hwn roeddem yn falch iawn o gyflwyno ein gweithdy Lles yn Ystod Amser Arholiadau i griw Blwyddyn 11 gyfan yn Whitmore. Daeth cyfanswm o 117 o ddisgyblion. Diolch yn arbennig i ymrwymiad y staff yno i wneud y diwrnod hwn yn bosibl, gan gynnwys Mr Lloyd, Mrs Morgan a Mrs Nielsson.




## UCD/Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Mae ein Tîm Ardal UCD/Addysg Heblaw yn yr Ysgol wedi bod yn darparu 'pasbort dysgu' o'n holl becynnau hyfforddiant i'r Tîm Sgiliau a Chymorth newydd fel rhan o **A.Y.C.C @ Severn (Addysgu Ymgysylltu Cyflawni Cymell).** Mae'r tîm yn cefnogi dysgwyr sydd yn derbyn tiwtora o ganlyniad i benderfyniad Panel Mynediad Teg yng Nghaerdydd. Mae'r sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi bod yn ffordd wych o feithrin perthnasoedd rhwng ein timau a darparu sylfaen o wybodaeth y gellir adeiladu arni mewn ymgynghoriadau. Yn dilyn ein hyfforddiant, mae'r staff wedi dechrau gwreiddio Chwareusrwydd, Derbyniad, Chwilfrydedd ac Empathi sy'n rhan o PACE yn eu dull gweithredu, ac maent hyd yn oed wedi gwneud arddangosfa wych yn eu hadeilad newydd!

